Centre for
Trials Research

Canolfan
Ymchwil Treialon



# Gweithio gyda'r Ganolfan ar gyfer Treialon Ymchwil

## Canllaw i Bartneriaid Ymchwil

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CANCER RESEARCH UK

www.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research

## Cysylltu â ni

E-bost: **ctr-hub@cardiff.ac.uk**

Ffôn: **029 2068 7620**

Twitter: **@CTRCardiffUni**

Blog: **blogs.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research**

Gwefan: **www.cardiff.ac.uk/cy/centre-for-trials-research**

Diolch i Seth Oliver / www.fizzievents.com / @relationalsoup
am ganiatâd caredig i ddefnyddio lluniau o'r digwyddiad cyd-gynhyrchu LEAP-MS.

# Cynnwys


Croeso i'r Ganolfan Treialon Ymchwil 3

Deall CTR a'n Cenhadaeth 4

Pwysigrwydd Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu 5

Canolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR 6

Polisi Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR 7

Rolau Partneriaid Ymchwil yn CTR 8

Gwneud Gwahaniaeth 12

Ad-daliad am Amser a Threuliau 14

Yr Hyfforddiant a'r Cymorth Sydd Ar Gael 15

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 16

Disgwyliadau Cyfunol Ymchwilwyr a Phartneriaid Ymchwil 17

Y Camau Nesaf 19

Atodiad 1: Rhestr Wirio ar gyfer y Cyfarfod Ymsefydlu 20

Atodiad 2: Cytundeb Cynnwys y Cyhoedd 21

Atodiad 3: Acronymau Ymchwil a Ddefnyddir yn Gyffredin 22



# Croeso i'r Ganolfan Treialon Ymchwil

Croeso i'r Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR). Nod y canllaw hwn yw helpu Partneriaid Ymchwil (aelodau o'r cyhoedd fel chi) sy'n gweithio gyda CTR yn eu rôl.

Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol ac yn gallu helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi. Gallwch ei ddefnyddio i arwain trafodaethau am eich rôl gyda'ch ymchwilydd a enwir – sef yr aelod o staff yn CTR a fydd yn cael ei gyflwyno i chi ac a fydd yn brif bwynt cyswllt i chi.

Mae Cynnwys y Cyhoedd yn rhan hanfodol o'r holl weithdrefnau astudio, ac o ymchwil iechyd a gofal yn ehangach, a byddwch yn chwarae rôl bwysig iawn yn darparu safbwynt cyhoeddus. Mae bob amser croeso i chi ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnoch chi, neu os nad ydych yn deall unrhyw beth. Gallwch gysylltu â Chanolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol, neu â'ch ymchwilydd a enwir ar gyfer ymholiadau penodol*.




Gyda dymuniadau gorau, Sarah Peddle & Sue Campbell (Partneriaid Ymchwil CTR ac Aelodau o'r Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu)

## Cysylltu â Chanolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR

E-bost: **ctr-hub@cardiff.ac.uk**

Gwefan: **www.cardiff.ac.uk/cy/centre-for-trials-research/public-and-patient-involvement**

*Byddwch yn cael eich cyflwyno i'ch ymchwilydd a enwir, a'r unigolyn hwn fydd eich prif bwynt cyswllt ar gyfer eich astudiaeth neu eich rôl benodol.

# Deall CTR a'n Cenhadaeth

## Mae CTR ym Mhrifysgol Caerdydd yn uned treialon clinigol gofrestredig. Ni yw'r grŵp mwyaf o staff treialon clinigol academaidd yng Nghymru.

Mae'r Ganolfan yn gartref i amrywiaeth o ymchwilwyr a staff gwasanaethau proffesiynol, gan gynnwys rheolwyr treialon, arbenigwyr systemau cyfrifiadurol, rheolwyr data, ymchwilwyr ansoddol, gweinyddwyr, rheolwyr sicrhau ansawdd ac ystadegwyr. Ein nod yw gwella iechyd a lles cymdeithas drwy dreialon clinigol ac astudiaethau eraill sydd wedi'u dylunio'n dda, er enghraifft ymchwil sy'n edrych ar brofiadau pobl o ofal iechyd.

Rydym yn mynd i'r afael â'r clefydau mawr a phryderon iechyd ein cyfnod, gan gynnwys ymwrthedd cynyddol i wrthfiotigau, diagnosis canser cynnar a sut i gael gwared ar anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn cyflawni hyn drwy feithrin perthynas barhaus â'r cyhoedd. Mae eu cyfranogiad yn hollbwysig i lwyddiant ein hastudiaethau.

Rydym yn cael arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a gan Cancer Research UK i gynnal ymchwil sy'n dylanwadu ar bolisïau iechyd a gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal astudiaethau ar draws Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r Ganolfan yn rhedeg hap-dreialon rheoledig ar gyfer meddyginiaethau, triniaethau a gwasanaethau newydd. Enghraifft o dreial fyddai cymharu cyffur canser newydd â'r driniaeth orau sy'n bodoli eisoes i weld a yw'n gweithio'n well. Ond mae'r Ganolfan yn cynnal llawer o fathau eraill o ymchwil o ansawdd uchel. Os ydych yn gweithio gyda ni, efallai y byddwch yn cymryd rhan mewn treial neu fath arall o astudiaeth ymchwil.

Gallwch weld enghreifftiau o'n gwaith ymchwil yn ein hadroddiad blynyddol diweddaraf, sydd ar gael yn: **www.cardiff.ac.uk/cy/centre-for-trials-research/about-us**



# Pwysigrwydd Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu

Pan fyddwn yn sôn am Gynnwys y Cyhoedd, rydym yn cyfeirio at ymchwil yr ydym yn ei gynnal 'gydag' aelodau o'r cyhoedd (yn hytrach nag 'arnynt', 'amdanynt' neu 'iddynt'). Gall aelodau o'r cyhoedd olygu cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, goroeswyr, gofalwyr ac aelodau o'r teulu. Yn y canllaw hwn rydym yn cyfeirio at aelodau o'r cyhoedd fel ein Partneriaid Ymchwil, gan eu bod yn ein helpu i gynnal yr ymchwil.

Mae Cynnwys y Cyhoedd yn hollbwysig i ni oherwydd mae'n golygu bod cleifion neu bobl eraill â phrofiad perthnasol yn cyfrannu at y ffordd y mae ein hymchwil yn cael ei ddylunio, ei gynnal a'i rannu â'r bobl gywir. Mae hyn yn golygu bod ein hymchwil yn fwy perthnasol, effeithlon a defnyddiol. Mae Partneriaid Ymchwil yn cyflawni llawer o wahanol rolau yn y Ganolfan, fel helpu i benderfynu ar bynciau ymchwil, a rhoi cyngor ar sut mae gwahodd cyfranogwyr i astudiaeth. Mae enghreifftiau o'r rolau hyn ar gael yn adran Rolau Partneriaid Ymchwil y canllaw hwn.

Mae 'Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd' yn bodoli. Mae'r Safonau hyn yn fframwaith y gellir ei ddefnyddio i helpu i gynnwys y cyhoedd mewn ffordd dda, ac i hybu myfyrio a dysgu. Gallwch ddarllen amdanynt yma: **ymchwiliechydagofalcymru.org/cyhoeddus-cynnwys/safonaur-du-ar-gyfer-cynnwys-y-cyhoedd**

Efallai y byddwch yn ein clywed yn siarad am Ymgysylltu â'r Cyhoedd hefyd, sef pan fyddwn yn rhannu gwybodaeth am ymchwil â'r cyhoedd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rhoi gwybod i'r cyhoedd am ganfyddiadau ein hastudiaethau. Gall Partneriaid Ymchwil roi cyngor i ni ar sut gallwn rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb. Mae'n bwysig i ni fod y cyhoedd yn deall beth rydym yn ei wneud a'u bod yn gallu cael gafael ar ein gwaith ymchwil.

Drwy fod yn Bartner Ymchwil, gall aelodau o'r cyhoedd ennill sgiliau newydd, fel defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol newydd neu fagu hyder yn cyflwyno, a chael cryn dipyn o foddhad drwy ymrwymo i'r rôl.

Yn hollbwysig, mae Partneriaid Ymchwil yn darparu safbwynt lleyg ar ein gwaith. Nid ydynt yno i gynrychioli pob claf neu bob aelod o'r cyhoedd. Nid yw hynny'n ymarferol nac yn angenrheidiol. Yr hyn gallant ei wneud yw darparu safbwynt gwahanol ar gyfer ystyried problem, a helpu i ddod o hyd i ateb.




# Canolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR

## Gan fod **Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu** yn rhan hanfodol o'n gwaith, sefydlon ni Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR.

Mae'n dîm o ymchwilwyr (aelodau o staff) a Phartneriaid Ymchwil (aelodau o'r cyhoedd). Nod y Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu yw hyrwyddo a chyd-drefnu gweithgareddau Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu ar draws CTR.

Rydym yn cyfarfod bob deufis a gall unrhyw aelod o staff neu Bartner Ymchwil yn CTR fynychu neu gyflwyno ymholiad. Rydym yn gweithio'n agos gyda thîm Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn ogystal â sefydliadau gwirfoddol sy'n cefnogi gweithgareddau Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu. Mae ein gwaith yn cyrraedd Safonau'r DU.

Dyma rai enghreifftiau o'n gweithgareddau:

- Datblygu polisi a thargedau pum mlynedd y Ganolfan ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu
- Rhoi cyngor i staff a Phartneriaid Ymchwil
- Casglu adnoddau a rhannu'r arferion gorau
- Darparu cyngor ar yr hyfforddiant perthnasol i staff CTR ac i Bartneriaid Ymchwil
- Monitro gweithgareddau Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu ar draws CTR
- Gweithio gyda thimau astudio i sicrhau bod canfyddiadau astudiaethau'n cael eu rhannu'n eang, a hynny mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb
- Cefnogi'r gwaith o gynnwys grwpiau amrywiol mewn gweithgareddau Cynnwys y Cyhoedd

Nid yw'r Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu wedi cyrraedd pen ei thaith eto – mae'n dal yn datblygu. Un o'n nodau yw datblygu ein cymuned o Bartneriaid Ymchwil er mwyn i chi allu dod ynghyd ar gyfer cymorth, mentora a hyfforddiant. Mae ein huchelgais yr un peth ag un CTR; cefnogi ymchwil o ansawdd uchel, sy'n cynnwys y cyhoedd, a fydd yn creu manteision gwirioneddol i gleifion a'r cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt.



# Polisi Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR

Mae'r Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu wedi helpu i ddatblygu **polisi Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR**. Mae'r polisi'n nodi'r fframwaith ar gyfer cyfraniad Partneriaid Ymchwil i'n hastudiaethau. Mae'n seiliedig ar **Safonau'r DU**. Dylai holl staff CTR fod yn gyfarwydd â'r Polisi, deall sut mae'n berthnasol i'w gwaith, a chefnogi ei ddefnydd.

Dyma brif egwyddorion y polisi:

- Mae cynnwys y cyhoedd yn arwain at ymchwil sy'n fwy perthnasol i'r cyhoedd ac yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol
- Mae cynnwys y cyhoedd yn arwain at ymgysylltiad mwy effeithiol â'r cyhoedd sydd wedyn yn gallu codi ymwybyddiaeth o'n canfyddiadau a'u heffaith
- Dylai holl gamau'r broses ymchwil gynnwys y cyhoedd, o ddechrau creu syniadau ar gyfer ymchwil i rannu'r canlyniadau a'u defnyddio i ddylanwadu ar ofal iechyd neu ofal cymdeithasol
- Dylid cynnwys aelodau o'r cyhoedd yn yr agweddau strategol ar yr ymchwil. Hynny yw, sut rydym yn datblygu ein nodau ehangach ar gyfer ymchwil yn CTR, yn ogystal â threfniadau ymarferol ein gwaith o ddydd i ddydd.

Fel rhan o'r polisi, bydd gan CTR Arweinydd Cyfarwyddol ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu (yr Athro Mike Robling ar hyn o bryd), ac Arweinydd Academaidd ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu (Dr Claire Nollett ar hyn o bryd). Mae'r ddau yn aelodau o'r Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu. Mae hefyd yn nodi y bydd aelodaeth Bwrdd Strategol CTR, sy'n cyfarfod unwaith y flwyddyn, yn cynnwys Partneriaid Ymchwil. Eu rôl fydd diweddaru'r Bwrdd ar weithgareddau Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu yn CTR, a darparu safbwynt cyhoeddus ar bob mater arall.

# Rolau Partneriaid Ymchwil yn CTR

## Beth yw'r rôl yn gyffredinol?

Gallwch ddylanwadu ar ba ymchwil sy'n cael ei gynnal a sut mae'n cael ei gynnal. Gallwch gynnig safbwynt gwahanol i gynllunio a chynnal astudiaethau. Mae'n cynnig safbwynt gwahanol ac yn cyfrannu llais cyhoeddus at yr ymchwil.

## Pa rolau sydd ar gael?

Mae llawer o gyfleoedd ar gael. Mae rhai o'r cyfleoedd mwyaf cyffredin wedi'u disgrifio yma. Mae pob un yn helpu i ddylanwadu ar ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, a'i gyflawni, yng Nghymru a thu hwnt.

## Cyfrannu at geisiadau am gyllid grant

Mae tua 10 aelod o'r cyhoedd yn ein **Grŵp Adolygu Barod ar gyfer Ymchwil (RRRG)**, a sefydlwyd i roi cymorth i ymchwilwyr gyda'u ceisiadau am grantiau. Mae angen arian ar ymchwilwyr i gynnal eu hastudiaethau, e.e. cyllid gan elusen neu lywodraeth. I wneud cais am y cyllid, rhaid iddynt lunio cais am grant. Efallai y gofynnir i Bartneriaid Ymchwil daro golwg dros gais am grant i sicrhau y bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu ei ddeall. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd aelodau o'r cyhoedd yn rhan o'r panel sy'n penderfynu a ddylid rhoi arian i'r ymchwilydd. Hefyd, gallai'r ymchwilydd ofyn i Bartneriaid Ymchwil am eu barn ar yr elfennau pwysig o ddyluniad yr astudiaeth o safbwynt aelod o'r cyhoedd.

Mae Henry Yeoman yn aelod o'n Grŵp Adolygu Barod ar gyfer Ymchwil. Mae'n esbonio: *"Fel adolygydd lleyg rwy'n sylwi ar jargon, boed y derminoleg neu'r acronymau sy'n gyffredin mewn unrhyw ddisgyblaeth, neu ymadroddion cliché diflas a geir mor aml mewn darllediadau gan weinidogion. Mae iaith syml a chlir yn hollbwysig. Mae llawer o ganllawiau ar natur ddarllenadwy ar gael ar-lein i helpu yn hyn o beth. O fy mhrofiad i, mae clinigwyr a gwyddonwyr yn croesawu cyfraniad person lleyg sy'n fodlon rhannu ei weledigaeth ymchwil, ond hefyd yn awyddus i'w chyfathrebu'n glir i gynifer o bobl â phosib.*

## Cyflawni gweithgareddau ymchwil neu ymgysylltu

Weithiau mae Partneriaid Ymchwil yn ein helpu i gynnal yr ymchwil neu i gysylltu â'r cyhoedd. Er enghraifft, mewn un astudiaeth, rhoddodd aelodau o'r cyhoedd wybodaeth i'w cymunedau am symptomau canser i sicrhau diagnosis cynnar. Mewn astudiaeth arall, Doeth am Iechyd Cymru, roeddent yn bresennol mewn digwyddiadau i aelodau o'r cyhoedd er mwyn siarad â nhw am yr astudiaeth a'u hannog i ymuno.

## Bod yn rhan o grŵp cynghori

Rydym yn cynnal nifer mawr o astudiaethau a threialon clinigol. Er enghraifft, mae gennym astudiaethau yn edrych ar brofiad pobl o fwydo ar y fron, a threialon yn profi triniaethau canser newydd. Mae gan bob astudiaeth grŵp o bobl – **y Grŵp Rheoli** – sy'n gyfrifol am reoli'r ymchwil o ddydd i ddydd. Mae'r Grŵp yn cyfarfod rhwng unwaith y mis a bob chwe mis, ac mae'n cynnwys o leiaf un Partner Ymchwil sy'n gallu darparu safbwynt cyhoeddus. Ei rôl yw helpu'r ymchwilwyr i ddarparu'r profiad gorau i bobl yn yr astudiaeth a sicrhau bod data o ansawdd da yn cael eu casglu. Gellir gwneud hyn mewn llawer o ffyrdd. Er enghraifft, lleisio eu barn mewn cyfarfodydd, adolygu'r wybodaeth a roddir i gyfranogwyr, a darparu cyngor ar sut dylem wahodd pobl i'r astudiaeth.

Bydd gan y rhan fwyaf o astudiaethau **Bwyllgor Llywio hefyd**. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau hawliau a diogelwch cyfranogwyr. Mae'n cyfarfod yn llai aml, tua unwaith bob chwe mis neu unwaith y flwyddyn. Eto, rôl y Partner Ymchwil yw darparu safbwynt cyhoeddus a bydd yn cael ei annog i leisio ei farn mewn cyfarfodydd.

Weithiau rydym yn gweithio gydag **elusennau neu sefydliadau sy'n bodoli'n barod**, fel Ein Lle, sef grŵp o famau ifanc ym Mhontypridd. Aethom i'w cyfarfodydd a gofyn am farn ar wahanol elfennau o astudiaeth o'r enw Building Blocks 2. Mae'n bosib y bydd cyfle i chi gymryd rhan drwy sefydliad rydych chi'n rhan ohono.

## Helpu i rannu ein hymchwil

Gall Partneriaid Ymchwil helpu i ysgrifennu canfyddiadau astudiaethau mewn ffordd sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Gallant hefyd awgrymu'r mannau lle dylem rannu ein canlyniadau er mwyn i'r bobl sydd angen eu gweld allu gwneud hynny. Mae rhai hefyd yn awyddus i ffurfio cysylltiad ag asiantaethau allweddol a llunwyr polisïau i sicrhau y gweithredir ar y canfyddiadau.

Mae gofynion ac ymrwymiadau amser pob rôl yn wahanol, ac rydym yn siŵr o ddod o hyd i rôl sy'n addas i chi. I gael gwybodaeth fanylach am bob rôl, cysylltwch â'r Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu, neu eich ymchwilydd a enwir.



# Yma, mae dau o'n Partneriaid Ymchwil yn rhannu eu profiadau o weithio gyda thimau astudio CTR.

Mae sglerosis ymledol (MS) yn glefyd sy'n effeithio ar y brif system nerfol a gall achosi anawsterau symudedd, ymysg pethau eraill. Mae angen cymorth i barhau i fod yn gorfforol egnïol ar lawer o bobl ag MS sy'n gwaethygu, ond nid ydynt yn cael y cymorth hwn bob amser. Roedd ymchwilwyr yn CTR wedi gweithio ochr yn ochr â phobl ag MS sy'n gwaethygu i ddatblygu pecyn Ffordd o Fyw, Ymarfer Corff a Gweithgareddau (LEAP-MS) addas iddynt ei ddefnyddio.

Nyrsio yw cefndir Ceri Roden. Ymunodd â grŵp llywio LEAP-MS fel Partner Ymchwil gyda'i gŵr Simon yn nyddiau cynnar y prosiect. Helpodd Ceri a Simon gydag amrywiaeth o dasgau, o adolygu'r wybodaeth a roddir i gleifion yn yr astudiaeth, i brofi'r pecyn cymorth LEAP. Maen nhw bellach wedi cytuno i fod yn Bartneriaid Ymchwil ar gyfer eu grant cysylltiol LEAP-MS 2.

## Ymuno â'r astudiaeth

Dywedodd Ceri: Fe wnaeth fy meddyg teulu gysylltu â fi, a sôn am yr astudiaeth LEAP-MS. Roedd e'n gwybod fy hanes, fy mod yn dioddef o MS am 24 mlynedd, ond na chafodd ei ddiagnosio'n iawn yn y dechrau. Roeddwn i'n ymddiried ynddo ddigon i fynd ar drywydd y peth. Er mai nyrs ydw i o ran fy mhroffesiwn, doeddwn i erioed wedi bod yn rhan o astudiaeth ymchwil o'r blaen felly roedd popeth yn anghyfarwydd i ddechrau. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl ond roeddwn i'n gwybod na fyddai'r meddyg wedi ei argymell oni bai ei fod yn gwybod y gallai fod yn rhywbeth gwerth ei wneud.

## Rhannu fy mhrofiadau

Fe wnaethon ni gyfrannu ein syniadau am sut beth yw byw gydag MS. Doedden ni ddim yn gwybod i ddechrau sut beth fyddai'r pecyn cymorth terfynol: taflen, pamffled, fideo. Dim ond gwybod bod angen i ni ddatblygu adnodd i annog pobl i wneud ymarfer corff yn eu ffordd eu hunain.

Dydw i ddim yn gallu gyrru erbyn hyn ac mae cerdded yn gallu bod yn her, felly roedd fy mhartner yn fy hebrwng i. Roedd Julie, arweinydd yr astudiaeth, yn llawn cydymdeimlad a rhoddodd groeso iddo aros a chymryd rhan. Fe gawson ni ein holi am ein taith ni gydag MS. Dwi'n hoffi nofio ac roedd gan y tîm gryn ddiddordeb mewn sut 'nes i ddechrau gwneud hynny. Mae byw gydag MS yn gallu gwneud i chi deimlo'n unig iawn. Oherwydd mae cyfrannu fy mhrofiad personol oedd fy rôl i ddechrau, roedd gen i'r rhyddid i ddweud beth bynnag oedd ar fy meddwl.

## Datblygu pecyn cymorth

Roeddwn i a'r Partneriaid Ymchwil eraill eisiau estyn allan at bobl sy'n unig, sydd ar eu pen eu hunain ac sydd ddim yn hoffi mynd allan. Roedden ni eisiau annog pobl i wneud hynny. Yn y pen draw fe wnaethon ni gynhyrchu rhywfaint o fideos gweithgareddau yr oedd pobl yn gallu dewis o'u plith, a mynd ar eu cyflymder eu hunain. Pan fyddwch chi'n gallu gweld rhywun yn gwneud ymarfer corff go iawn a'i wneud mewn ffordd ysgafn, hwyliog, fe allwch chi ddychmygu eich hun yn ei wneud. Fe wnaeth yr astudiaeth yma ein hysbrydoli go iawn ac roedden ni'n rhan o bob cam o ddatblygu'r deunyddiau.

Yr uchafbwynt i fi oedd caredigrwydd pobl drwy gydol yr astudiaeth. Fe gawson ni gyfle i siarad â ffisiotherapyddion gwych, a chael ein cyfweld ganddyn nhw. Roeddwn i'n mwynhau'r cyfeillgarwch o fod gyda phobl o'r un anian sydd wir yn deall y cyflwr, ac yn dymuno gwella pethau i bobl eraill. Mae'n wych, mae wedi cael effaith fawr ar lawer o bobl y tu allan i'r astudiaeth yn barod – ac arna i a fy ngŵr. Bod yn Bartner Ymchwil ar astudiaeth yw'r peth gorau 'nes i erioed, oherwydd roedd yn rhywbeth i fi ganolbwyntio arno.

**Ceri Roden**
**Partner Ymchwil, LEAP-MS**

Ariennir LEAP-MS gan y Gymdeithas MS

LEAP MS

Mae'r astudiaeth THESEUS yn ymwneud â Hidradenitis Suppurativa (HS), sef cyflwr croen hirdymor, poenus sy'n effeithio ar tua 1% o oedolion. Mae'n achosi cornwydydd (boils) mewn rhannau o'r corff fel y ceseiliau a chesail y forddwyd, ac yn cael effaith fawr ar ansawdd bywyd. Bydd THESEUS yn darparu gwybodaeth bwysig i ateb cwestiynau a nodwyd fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil gan gleifion â'r cyflwr, a'r meddygon a'r nyrsys sy'n eu trin.

Mae Angela wedi dioddef o'r cyflwr am dros 30 mlynedd ac mae'n eiriolwr brwd. Roedd hi'n awyddus i gyfrannu at y gwaith o lunio'r astudiaeth. Dyma hi'n siarad am ei phrofiad.

## Fy nghymhelliant i gymryd rhan

Meddai Angela: Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth MS gysylltu â fi am yr astudiaeth, gan ddweud bod ymchwilydd wedi cysylltu â nhw a gofyn a fyddai gen i ddiddordeb cymryd rhan. Mae natur HS yn golygu ei fod yn rhywbeth nad yw llawer o bobl yn ei drafod. Mae'n gyflwr cudd ac mae pobl yn teimlo embaras neu gywilydd. Roeddwn i'n teimlo bod gen i'r amser a'r hyder i gyfrannu gan fy mod wedi byw â'r cyflwr am 30 mlynedd a mwy. Felly 'nes i gytuno cymryd rhan er mwyn helpu pobl eraill sy'n cael trafferth oherwydd y cyflwr. Yn y gymuned HS, mae diffyg gobaith yn aml ac weithiau mae pobl yn ymddieithrio rhag gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Dwi'n teimlo bod cyfrannu llais y claf yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at feithrin ffydd a gobaith.

## Gweithio gyda thîm yr astudiaeth

Doeddwn i ddim wedi clywed am y Ganolfan Treialon Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd o'r blaen, ond ges i wahoddiad i gynhadledd lle ges i fy nghyflwyno i weddill tîm yr astudiaeth. 'Nes i gwrdd â dau neu dri o Bartneriaid Ymchwil eraill ac fe aethon ni ar wahân i gael ein cyfarfod cyntaf fel tîm yr astudiaeth THESEUS. Y peth gorau oedd ei bod hi'n teimlo fel bod cleifion yn cael eu cynnwys o gychwyn cyntaf yr astudiaeth, a bod ein barn wir yn bwysig.

Fy mhrif rôl yw bod yn eiriolwr cleifion yng ngrŵp rheoli'r astudiaeth. Yn ystod y pandemig, rydyn ni wedi cyfarfod yn rheolaidd ar-lein i gael y maen i'r wal o ran yr astudiaeth. Oherwydd bod gan y Partneriaid Ymchwil swyddi prysur yn ystod y dydd, dydyn ni ddim yn bresennol ym mhob cyfarfod – dim ond y rheini lle mae wir angen cyfraniad gennym. Er enghraifft, darparu cyngor ar y ffyrdd posib o wahodd cleifion i'r astudiaeth, a gwneud yn siŵr bod y wybodaeth mae'r ymchwilwyr yn ei rhoi at ei gilydd yn berthnasol ac yn synhwyrol. Mae'n haws bod yn bresennol mewn cyfarfodydd ar-lein heb yr amser teithio. Rhwng cyfarfodydd rydyn ni'n cadw mewn cysylltiad dros e-bost, ac weithiau mae gofyn i ni gyfrannu at adroddiadau.

## Fy nghyfraniad

Yn fy swydd arferol, dwi'n teimlo bod angen i fi ddeall popeth. Pan ydych chi'n Bartner Ymchwil, rhaid i chi ddeall na fyddwch chi'n deall popeth mae'r ymchwilwyr yn ei ddweud, ond mae hynny'n iawn! Rydyn ni'n dod o wahanol gefndiroedd ac mae gennym ni brofiad amrywiol, ond ein profiad uniongyrchol o'r cyflwr sy'n ddefnyddiol. Efallai nad oes gennych chi'r un cymwysterau a phrofiad â'r ymchwilwyr, ond rydych chi'r un mor werthfawr o ran yr hyn gallwch chi ei gyfrannu.

Un o'r pethau rydyn ni wedi gallu ei gynnig yw cyngor ar yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn y wybodaeth sy'n cael ei rhoi i gyfranogwyr. Mae'n well gan bobl â HS ddefnyddio termau penodol ar gyfer eu symptomau, sy'n eu gwneud yn fwy dibryder yn eu trafod. Roedden ni wedi rhoi arweiniad i'r ymchwilwyr ar y termau gorau i'w defnyddio. Mae gwybod y bydd ein cyfraniad yn gwneud yr astudiaeth yn fwy hygyrch yn rhoi boddhad. Gobeithio, ar ddiwedd hyn i gyd, byddwn yn dod i wybod beth sydd fwyaf effeithiol o ran trin HS. Byddwn yn annog y rhai sy'n ystyried cymryd rhan i fynd amdani. Mae'n gallu eich grymuso, gwybod eich bod yn gwneud gwahaniaeth i bobl eraill sy'n dioddef. Rydych chi'n gallu cydymdeimlo a chysylltu â nhw mewn ffordd unigryw. Er yr holl rwystredigaeth mae eich cyflwr wedi ei achosi i chi, dyma gyfle i ddylanwadu ar fywyd pobl eraill sydd mewn sefyllfa debyg.

**Angela Gibbons**
**Partner Ymchwil, THESEUS**

Cefnogir THESEUS gan Ymddiriedolaeth HS

# Gwneud Gwahaniaeth

Mae cyfraniadau Partneriaid Ymchwil yn amrywio'n fawr, ond mae pob un yn gwneud gwahaniaeth o ran dylanwadu ar yr ymchwil sy'n cael ei gynnal.

Er enghraifft, efallai eich bod yn gwybod pa faterion sydd bwysicaf i rywun ag arthritis. Efallai eich bod yn perthyn i grŵp cymunedol a fyddai'n elwa ar gymryd rhan mewn ymchwil iechyd meddwl. Efallai fod gennych syniad creadigol am sut i roi gwybod i'r cyhoedd am ein canfyddiadau diweddaraf. Mae Partneriaid Ymchwil yn ychwanegu safbwynt sy'n cryfhau'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'n gilydd. Mae ein timau ymchwil yn cael eu hannog i gofnodi'r effaith mae cynnwys y cyhoedd yn ei chael ar ein hymchwil. Mae enghreifftiau o sut mae Partneriaid Ymchwil wedi dylanwadu ar yr astudiaeth Building Blocks 2 a'r Prosiect Cydsyniad Dirprwyedig i'w gweld isod.

## Astudiaeth Building Blocks 2

Roedd Building Blocks 2 yn ddilyniant i'r ymchwil Building Blocks, a oedd yn edrych ar effaith ymweliadau gan nyrsys wedi'u hyfforddi'n arbennig i roi cymorth i ferched ifanc sy'n feichiog.

**Cafodd aelodau o'r cyhoedd eu cynnwys mewn amryw o ffyrdd. Daeth y prif gyfranogiad gan 3 grŵp:**

**1 Lleisiau CASCADE**

Grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

**2 Grŵp 'Ein Lle'**

Rhwydwaith o rieni ifanc sydd â phlant ifanc

**3 Cyngor yn Arwain at Hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd (ALPHA)**

Grŵp o bobl ifanc sy'n rhoi cyngor i ymchwilwyr, wedi'i drefnu gan Brifysgol Caerdydd

### Cyfrannu

Cafwyd amrywiaeth eang o gyngor ar bynciau o ddylunio'r astudiaeth i ledaenu canlyniadau. Roedd eu cyngor wedi dylanwadu'n allweddol ar y canlynol:

- Y llythyrau a anfonwyd i gyfranogwyr ynghylch yr astudiaeth
- Creu'r animeiddiad i esbonio beth yw data arferol a sut gellir eu defnyddio

# Cynnwys y Cyhoedd yn y Prosiect Cydsyniad Dirprwyedig

**Roedd y prosiect Cydsyniad Dirprwyedig yn edrych ar brofiadau aelodau o'r teulu a ffrindiau o chwarae rhan mewn penderfyniadau am ymchwil sy'n cael ei gynnal ar ran oedolyn nad oes ganddo'r gallu i wneud penderfyniadau.**

## Crynodeb

### 1. Datblygu cwestiynau ymchwil

Cyn i'r prosiect sicrhau cyllid, roedd y grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd wedi helpu i lunio'r cwestiynau ymchwil i wneud yn siŵr bod y cwestiynau cywir a phwysicaf yn cael eu gofyn.

### 2. Cynllunio'r prosiect

Yn ystod y cam cynllunio, darparodd y grŵp wybodaeth amhrisiadwy am eu profiad o ofalu am bobl â nam ar eu gallu ac o eirioli drostynt. Roedd hyn yn golygu bod y prosiect wedi cael ei ddylunio i adlewyrchu'r broses o integreiddio penderfyniadau am ymchwil yn realiti cymhleth perthynas ofalu.

### 3. Cynhyrchu taflenni gwybodaeth

Roedd y grŵp wedi helpu i sicrhau bod y wybodaeth a roddwyd i deuluoedd a oedd yn ystyried cymryd rhan yn y prosiect yn hygyrch a'u bod yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus.

### 4. Geirio cwestiynau cyfweliadau

Roedd aelodau o'r grŵp wedi helpu i sicrhau bod y cwestiynau wedi'u geirio'n dringar wrth gyfweld â theuluoedd, a bod modd eu deall yn glir.

### 5. Gwneud synnwyr o'r canfyddiadau

Gan ddefnyddio eu profiadau eu hunain, cysylltodd y grŵp ganfyddiadau'r ymchwil â'r cyd-destun ehangach o ofalu am bobl eraill, gan helpu i 'wneud synnwyr' o'r data a'r dehongliad.

### 6. Adrodd yn ôl i'r cyfranogwyr

Mae'n bwysig darparu gwybodaeth i gyfranogwyr i roi gwybod iddynt beth oedd canfyddiadau'r astudiaeth. Roedd y grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd wedi helpu i greu'r crynodeb i gyfranogwyr.

### 7. Datblygu'r adnodd cefnogi penderfyniadau

Y rhan olaf o'r prosiect oedd creu adnodd cefnogi penderfyniadau i deuluoedd sy'n gwneud penderfyniadau am ymchwil. Roedd y grŵp wedi chwarae rhan hollbwysig o ran deall ar ba ffurf dylai'r adnodd fod.

### 8. Hygyrchedd a derbynioldeb

Roedd hi'n bwysig bod yr adnodd yn hygyrch i deuluoedd, ac yn dderbyniol. Roedd y grŵp wedi chwarae rhan flaenllaw yn helpu i ddylanwadu ar yr iaith, y defnydd o liw, a'r cynllun.

### 9. Mireinio'r cynnwys a'r fformat

Roedd y cynnwys a'r fformat wedi newid yn sylweddol dros amser. Adolygodd pob grŵp bob fersiwn cyn cytuno ar y fersiwn derfynol.

**https://www.cardiff.ac.uk/cy/centre-for-trials-research/research/studies-and-trials/view/decision**

**Victoria Shepherd, Prifysgol Caerdydd, ShepherdVL1@cardiff.ac.uk**

# Ad-daliad am Amser a Threuliau

## A fydda i'n cael fy nhalu am gymryd rhan?

Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad yn fawr ac yn gobeithio byddwch yn mwynhau'r profiad o weithio gyda ni. Rydym yn deall y bydd rhai costau'n gysylltiedig â'ch cyfranogiad. Byddwch yn cael ad-daliad am fân dreuliau rhesymol fel lwfans milltiroedd neu gostau teithio. Rhaid i chi gytuno ar y rhain gyda'ch ymchwilydd a enwir ymlaen llaw. Lle bo'n briodol ac yn bosib, efallai y cynigir taliad (honorariwm) i chi am eich amser hefyd. Rydym yn dilyn canllawiau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn hyn o beth ar y cyfan. Maen nhw wedi amlinellu tair lefel o gyfranogiad. Mae rhagor o wybodaeth am y categorïau ar gael ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (**ymchwiliechydagofalcymru.org/cyhoeddus-cynnwys/cyfleoedd-ar-hyn-o-bryd**) neu drwy gysylltu â'r Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu. Mewn rhai achosion, lle rydych yn cyfrannu cyn i astudiaeth sicrhau cyllid, bydd yr ad-daliad yn cael ei ddarparu gan gronfa y gall ymchwilwyr ei defnyddio ac sydd dan reolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

## Beth yw'r broses ad-dalu?

Eich ymchwilydd a enwir yw'r person gorau i'w holi am ad-dalu. Bydd y broses ychydig yn wahanol yn dibynnu ar y cam ymchwil. Os ydych yn cyfrannu at astudiaeth sydd wedi cael cyllid yn barod, bydd eich ymchwilydd yn gofyn i chi lenwi ffurflen dreuliau ar gyfer eich mân dreuliau, neu lle bo'n bosib bydd yn archebu unrhyw drafnidiaeth neu lety i chi ymlaen llaw. Os ydych yn cael honorariwm hefyd, bydd yn llenwi Ffurflen Memo CTR ar eich rhan. Efallai y bydd yn gofyn am wybodaeth fel eich manylion banc er mwyn ei gwneud hi'n bosib talu'r arian yn syth i'ch cyfrif. Bydd y ffurflen wedyn yn cael ei hanfon i'n hadran gyllid, a byddwch yn cael eich talu'n uniongyrchol.

Os ydych yn cyfrannu cyn i'r astudiaeth gael cyllid, efallai mai Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fydd yn eich talu. Bydd eich ymchwilydd yn rhoi gwybod i'r tîm yno eich bod wedi gwneud gwaith i ni, a byddwch yn cael eich talu'n uniongyrchol. Rhaid i chi fod wedi cofrestru ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gael y taliad hwn – bydd eich ymchwilydd yn gallu esbonio'r broses hon i chi.

Gan fod y dulliau ad-dalu'n gallu amrywio rhwng astudiaethau, gofynnwch i'ch ymchwilydd beth yw'r union broses.

## A fydd y taliad yn effeithio ar fy mudd-daliadau?

Gallai unrhyw daliad effeithio ar eich budd-daliadau. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio hyn. Mae rhagor o gyngor ar gael ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn **ymchwiliechydagofalcymru.org/cyhoeddus-cynnwys/faq**. Os oes angen, gallwn ddarparu llythyr i'r Ganolfan Byd Gwaith yn esbonio eich rôl gyda ni.

## A fydd angen i mi dalu treth?

Mae'n bosib y bydd taliadau a wneir i chi yn agored i dreth ac Yswiriant Gwladol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gyfeirio at y ddogfen 'Payment guidance for members of the public considering involvement in research' yn **www.nihr.ac.uk/documents/payment-guidance-for-members-of-the-public-considering-involvement-in-research/27372**.

Gallwch ddewis peidio â derbyn taliad os yw'n well gennych.

# Yr Hyfforddiant a'r Cymorth Sydd Ar Gael

## A fydda i'n cael cyflwyniad i fy rôl?

Pan fyddwch yn ymuno â ni fel Partner Ymchwil, bydd eich ymchwilydd a enwir yn eich gwahodd i gyfarfod ymsefydlu. Bydd yn eich tywys drwy'r rhestr wirio yn Atodiad 1 ar ddiwedd y canllaw hwn gyda chi. Bydd yn esbonio'r astudiaeth neu'r bwrdd y byddwch yn gweithio arno gyda ni (os yw'n berthnasol), a beth yw disgwyliadau eich rôl. Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Gallwch hefyd ofyn am arweiniad ar dasgau neu gyfarfodydd penodol. Rydym wedi darparu rhestr o acronymau yn Atodiad 3 i'ch helpu i ddeall y termau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin mewn ymchwil. I gael rhagor o gyngor cyffredinol ar gymryd rhan mewn ymchwil, cysylltwch â Chanolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR. Rydym yn bwriadu ehangu ein cymuned Partneriaid Ymchwil a darparu digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddiant drwy'r Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu yn y dyfodol agos.

## Ble arall galla' i gael cymorth a hyfforddiant?

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Gymuned Cynnwys y Cyhoedd weithgar. Rydym yn eich annog i ymuno â hi os ydych yn byw yng Nghymru. Rydym yn eich gwahodd i gyflawni eu hyfforddiant am ddim sy'n darparu cyflwyniad i Gynnwys y Cyhoedd (**healthandcareresearchwales.org/training/introduction-to-public-involvement-in- research/**) ac i Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd (**www.ymchwiliechydagofalcymru.org/hyfforddiant-cynnwys-y-cyhoedd-safonau-r-DU**).

Gallwch ymuno â'r gymuned a chofrestru ar gyfer hyfforddiant ar eu gwefan, neu siaradwch â'ch ymchwilydd a enwir i gael rhagor o wybodaeth (**ymchwiliechydagofalcymru.org/cyhoeddus/helpwch-gydag-ymchwil**).

Mae cyfleoedd hyfforddi ac adnoddau eraill ar gael yn: **learningforinvolvement.org.uk**








# Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant

Mae **Safonau'r DU** yn argymell y dylai fod yn hawdd cael gafael ar gyfleoedd cynnwys y cyhoedd. Fel Canolfan, rydym wedi ymrwymo i ddarparu mynediad cyfartal i gyfleoedd ac i ddatblygu cymuned amrywiol, gynhwysol o Bartneriaid Ymchwil yn unol â'r hyn mae Safonau'r DU yn ei argymell.

Rydym yn deall y bydd gennych ofynion penodol y bydd angen eu hystyried o bosib, fel cyfyngiadau symudedd, namau synhwyraidd neu anghenion gofal plant. Rhowch wybod i'ch ymchwilydd a enwir beth yw'r ffordd orau y gall eich helpu i gyflawni eich rôl.



# Disgwyliadau Cyfunol Ymchwilwyr a Phartneriaid Ymchwil

## Rydym yn disgwyl y bydd ymchwilwyr a Phartneriaid Ymchwil yn trin ei gilydd â pharch bob amser ac yn dangos cwrteisi cyffredin, fel bod ar amser i gyfarfodydd.

Mae bod yn rhan o dîm ymchwil yn golygu y byddwn yn rhannu gwybodaeth â chi a allai fod yn sensitif ac yn gyfrinachol fel arfer. Yn yr un modd â phob aelod o'r tîm, bydd hi'n bwysig peidio â rhannu gwybodaeth o'r fath â phobl y tu allan i'r tîm ymchwil. Byddwn yn trafod hyn fel rhan o'r cyfarfod ymsefydlu neu ar unrhyw adeg ar ôl hynny os oes gennych unrhyw ymholiadau o hyd.

Rydym wedi creu Cytundeb Cynnwys y Cyhoedd a bydd gofyn i chi ei lofnodi yn eich cyfarfod ymsefydlu (gweler Atodiad 2).



# Y Camau Nesaf

## Os ydych wedi ymuno â ni fel Partner Ymchwil – croeso! Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi.

Cysylltwch â'ch ymchwilydd a enwir i drefnu cyfarfod ymsefydlu. Gallwch ddefnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 1 i'ch helpu i feddwl am gwestiynau i'w gofyn yn y cyfarfod hwnnw.

Os nad ydych yn Bartner Ymchwil eto ond bod gennych ddiddordeb yn y rôl, cysylltwch â Chanolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR (**CTR-Hub@cardiff.ac.uk**) neu ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gael gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael (**research-involvement@wales.nhs.uk**).

Gall Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am hyfforddiant ac am ymuno â'r gymuned cynnwys y cyhoedd hefyd. Y wefan yw **ymchwiliechydagofalcymru.org/cyhoeddus/helpwch-gydag-ymchwil**. Mae gwybodaeth am sut gall y cyhoedd helpu gydag ymchwil ar gael ar y tab 'Cyhoeddus'.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau dylanwadu ar ddyfodol ymchwil yng Nghymru a thu hwnt, a diolch am weithio gyda ni.

# ATODIAD 1:
# Rhestr Wirio ar gyfer y Cyfarfod Ymsefydlu

## Pan fyddwch yn ymuno â CTR i ddechrau, yn dechrau ar brosiect newydd neu'n ymgymryd â rôl newydd, dylech gael eich gwahodd i gyfarfod ymsefydlu ag aelod o'r tîm ymchwil.

Gall y rhestr wirio isod awgrymu eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwnnw. Nid yw'n rhestr gyflawn ac efallai y bydd pethau pwysig eraill i'w trafod. Gallwch ddefnyddio'r rhestr fel canllaw a gwneud nodiadau am eich rôl benodol.

- ○ Cyflwyniad i CTR, Ein Cenhadaeth a'n gwefan (**www.cardiff.ac.uk/cy/centre-for-trials-research**)
- ○ Pwysigrwydd cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil
- ○ Eich ymchwilydd a enwir (eich prif gyswllt) a'i fanylion cyswllt
- ○ Manylion y gweinyddwr os yw'n berthnasol
- ○ Cefndir yr astudiaeth/prosiect/bwrdd (copi o/dolen i'r crynodeb lleyg)
- ○ Enwau a rolau tîm yr astudiaeth/prosiect
- ○ Disgwyliadau eich rôl (gan gynnwys gofynion amser) a sut gallwch wneud gwahaniaeth
- ○ Y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gyflawni hyn, a nodi anghenion hyfforddiant
- ○ Y dulliau cysylltu sydd orau gennych a mynediad at TG
- ○ Gweithdrefnau talu am dreuliau ac amser
- ○ Cytundeb Cynnwys y Cyhoedd (llenwch Atodiad 2)
- ○ Sut mae cysylltu â'r Ganolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu
- ○ Cyfle i ymuno â Chymuned Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- ○ Y camau nesaf – cyfarfod nesaf, y camau cyntaf o ran cymryd rhan, adolygiad blynyddol
- ○ Eich cwestiynau



# ATODIAD 2:
# Cytundeb Cynnwys y Cyhoedd

Diolch am fynegi diddordeb mewn bod yn Bartner Ymchwil yn y Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR). Mae eich tîm ymchwil a Chanolfan Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu CTR yma i'ch cefnogi, ac i wneud eich profiad yn un cadarnhaol a gwerth chweil.

Mae ein cytundeb cynnwys y cyhoedd yn nodi beth gallwch ei ddisgwyl gennym i wneud eich profiad o gymryd rhan yn un buddiol a gwerth chweil, yn ogystal â'r hyn a ddisgwylir gennych chi pan fyddwch yn cymryd rhan. Drwy lofnodi isod rydych chi a ninnau'n cadarnhau ein hymrwymiad i'r cytundeb hwn. Mae hwn yn gwbl wirfoddol ac nid yw'n gontract cyflogaeth. Gellir ei ganslo ar unrhyw adeg gennym ni neu gennych chi.

Fel Partner Ymchwil gallwch ddisgwyl y canlynol gan CTR:

- Cyfarfod ymsefydlu a gwybodaeth am eich rôl
- Hyfforddiant i'ch cefnogi chi ac addasiadau er mwyn i chi allu cyflawni eich rôl
- Taliad am fân dreuliau rhesymol
- Adolygiad blynyddol o'ch rôl
- Cydnabyddiaeth a diolch am y gwaith a wneir
- Triniaeth barchus a chyfrinachol
- Ymateb prydlon i'ch pryderon neu eich cwynion
- Byddwn yn cadw eich data personol yn unol â GDPR

Yn gyfnewid, gofynnwn i Bartneriaid Ymchwil wneud y canlynol:

- Mynd i gyfarfod ymsefydlu
- Ystyried ymuno â Chymuned Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Ymrwymo i ddeall y rôl sy'n cael ei chyflawni
- Cadw cynnwys dogfennau astudiaethau a thrafodaethau yn gyfrinachol (peidio â'u trafod y tu allan i CTR). Efallai y gofynnir i chi lofnodi dogfen ychwanegol neu siarter mewn cysylltiad â chyfrinachedd.
- Rhoi cymaint o rybudd â phosib os nad ydych yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod neu barhau i gymryd rhan
- Rhoi gwybod i ni os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'ch diogelwch/lles neu ddiogelwch/lles pobl eraill

## Partner Ymchwil

Llofnod: ______________________ Enw: ______________________

Dyddiad: ______________________

## Staff CTR

Llofnod: ______________________ Enw: ______________________

Dyddiad: ______________________

# ATODIAD 3:
# Acronymau Ymchwil a Ddefnyddir yn Gyffredin

Rydym yn defnyddio acronymau i fod yn gryno mewn gwaith ymchwil yn aml. Rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn ddryslyd ac eithrio pobl rhag cymryd rhan lawn mewn ymchwil. Byddai'n anhylaw cynnwys yr holl acronymau felly rydym wedi cynnwys rhai o'r acronymau sy'n cael eu defnyddio mwyaf cyffredin yn CTR.

Mae rhestr lawn ar gael yn: **www.invo.org.uk/resource-centre/jargon-buster** a **www.ct-toolkit.ac.uk/glossary/**

| | | |
|---|---|---|
| **AE** | Adverse Event | Canlyniad nas dymunwyd sy'n digwydd wrth ddefnyddio meddyginiaeth neu ymyriad arall, neu ar ôl ei ddefnyddio, ond nid yw'n cael ei achosi ganddo o reidrwydd. |
| **CI** | Chief Investigator | Y person sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddylunio, cynnal ac adrodd ar astudiaeth. |
| **CRF** | Case Report Form | Dogfen bapur neu electronig sy'n cofnodi'r data neu'r wybodaeth a gesglir ar gyfer yr astudiaeth. |
| **CT** | Clinical Trials | Astudiaethau ymchwil yw treialon clinigol sy'n cymharu un math o feddyginiaeth â rhywbeth arall, er enghraifft y feddyginiaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd, neu ddim triniaeth. |
| **CTR** | Centre for Trials Research | Ein gweithle – uned treialon clinigol ym Mhrifysgol Caerdydd sydd wedi cofrestru â UKCRC |
| **CTIMP** | Clinical Trial of an Investigational Medicinal Product | Treial ar gyfer meddyginiaeth newydd heb ei thrwyddedu, neu feddyginiaeth sy'n bodoli eisoes sy'n cael ei phrofi y tu allan ei thrwydded, neu feddyginiaethau sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu profi yn erbyn ei gilydd ar eu diogelwch neu eu heffeithiolrwydd |
| **GCP** | Good Clinical Practice | Set o safonau moesegol a gwyddonol a gydnabyddir yn rhyngwladol ac y mae'n rhaid eu cyrraedd pan fydd astudiaethau'n cynnwys pobl. |
| **HCRW** | Health and Care Research Wales | Sefydliad o dan Lywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo, yn ariannu ac yn cefnogi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| **HRA** | Health Research Authority | Sefydliad sy'n rheoleiddio gwahanol agweddau ar ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n delio ag ymchwil sy'n cael ei gynnal yn Lloegr yn bennaf, ond yn gweithio'n agos gyda gwledydd eraill y DU hefyd i ddarparu system i'r DU gyfan. |
| **HTA** | Health Technology Assessment | Math o gyllid y gall ymchwilwyr wneud cais amdano pan fydd rhywfaint o dystiolaeth fod ymyriad yn gallu gweithio a bod angen ei gymharu â'r ymyriad safonol presennol i weld pa un sy'n gweithio orau. |
| **IDMC** | Independent Data Monitoring Committee | Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod buddiannau cleifion mewn astudiaeth yn cael eu diwallu (h.y. bod buddion a niwed posib cymryd rhan yn cael eu hystyried yn llawn) a bod uniondeb gwyddonol yr astudiaeth yn cael ei gynnal. |
| **IMP** | Investigational Medicinal Product | Meddyginiaeth newydd heb ei thrwyddedu, neu feddyginiaeth sy'n bodoli eisoes sy'n cael ei phrofi y tu allan ei thrwydded, neu feddyginiaethau sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu profi yn erbyn ei gilydd ar eu diogelwch neu eu heffeithiolrwydd. |
| **MHRA** | Medicines and Healthcare products Regulatory Agency | Mae'r Asiantaeth yn rheoleiddio meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a chyfansoddion gwaed ar gyfer trallwyso yn y DU |
| **NIHR** | National Institute for Health Research | Cyllidwr mwyaf y DU ar gyfer ymchwil iechyd a gofal, ac mae'n darparu'r bobl, y cyfleusterau a'r dechnoleg i alluogi ymchwil. |
| **PI** | Principal Investigator | Y person sy'n gyfrifol am astudiaeth mewn safle penodol (mae astudiaethau'n recriwtio cyfranogwyr o fwy nag un safle yn aml). Gall safle fod yn ysbyty, yn ysgol, yn glinig, ac ati |
| **PI** | Public Involvement | Mae Cynnwys y Cyhoedd yn cael ei ddiffinio fel gwneud ymchwil 'gyda' neu 'gan' bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn aml, yn hytrach nag 'arnynt', 'amdanynt' neu 'iddynt'. Byddai hyn yn cynnwys cyfrannu at y broses o ddewis o bynciau ymchwil, helpu i ddylunio, darparu cyngor ar y prosiect ymchwil, neu helpu i gynnal yr ymchwil. Mae'n cael ei alw'n PPI (Public & Patient Involvement) weithiau. |
| **RDCS** | Research Design and Conduct Service | Mae'r gwasanaeth yn rhan o CTR ac yn cefnogi staff sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gofal cymdeithasol i ddatblygu cynigion ariannu ymchwil o ansawdd uchel. |
| **RCT** | Randomised Controlled Trial | Mae treial rheoledig yn cymharu dau grŵp o bobl neu fwy: grŵp arbrofol sy'n cael triniaeth newydd fel arfer, a grŵp rheolydd, sy'n cael y driniaeth arferol neu blasebo. Mae'r grŵp rheolydd yn caniatáu i'r ymchwilwyr weld a yw'r driniaeth maen nhw'n ei phrofi yn gweithio'n well na'r driniaeth arferol neu safonol.<br>Mewn hap-dreial rheoledig, mae'r penderfyniad ynghylch pa grŵp y mae person yn rhan ohono yn cael ei wneud ar hap (hynny yw, mae'n seiliedig ar siawns). Cyfrifiadur fydd yn dewis, yn hytrach na'r ymchwilydd neu'r cyfranogwr. |

| | | |
|---|---|---|
| **REC** | Research Ethics Committee | Yn adolygu astudiaethau sy'n cael eu cynnal yn y GIG neu ofal cymdeithasol i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn foesol i bobl gymryd rhan ynddynt. |
| **SAE** | Serious Adverse Event | Unrhyw ddigwyddiad niweidiol (gweler AE) sy'n arwain at farwolaeth, yn peryglu bywyd, yn golygu bod angen mynd i'r ysbyty neu'n ymestyn cyfnod yn yr ysbyty, yn arwain at anabledd parhaol neu sylweddol neu at analluedd, yn anomaledd cynhenid neu'n nam geni. |
| **SAR** | Serious Adverse Reaction | Mae digwyddiad niweidiol difrifol (gweler SAE) sy'n digwydd yn ystod ymchwil gyda meddyginiaeth yn cael ei ystyried yn adwaith niweidiol difrifol os oes posibilrwydd bod y digwyddiad yn niweidiol ac yn adwaith nas dymunwyd i feddyginiaeth y treial. |
| **SUSAR** | Suspected Unexpected Serious Adverse Reaction | Os yw adwaith niweidiol difrifol yn un annisgwyl, caiff ei alw'n SUSAR. Yn yr achos hwn, ystyr 'annisgwyl' yw nad yw natur a difrifoldeb yr adwaith niweidiol yn cyfateb i'r wybodaeth ddiogelwch sydd gennym am feddyginiaeth y treial. |
| **SOP** | Standard Operating Procedure | Cyfarwyddiadau ysgrifenedig manwl sydd wedi'u dylunio i sicrhau cysondeb yn y ffordd mae tasg yn cael ei chyflawni. |
| **TMF** | Trial Master File | Ffeil sy'n cynnwys yr holl ddogfennau hanfodol sy'n ei gwneud hi'n bosib gwerthuso'r dull o gynnal treial ac ansawdd y data a gynhyrchwyd. Mae'n cael ei alw'n 'Study Master File' hefyd. |
| **TMG** | Trial Management Group | Fel rheol, mae'r grŵp hwn yn cynnwys yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am reoli'r treial o ddydd i ddydd. Rôl y grŵp yw monitro pob agwedd ar y dull o gynnal y treial a'i gynnydd, sicrhau bod y protocolau'n cael eu dilyn a chymryd camau gweithredu priodol i ddiogelu cyfranogwyr, ac ansawdd y treial ei hun. Mae'n cael ei alw'n 'Study Management Group' hefyd. |
| **TSC** | Trial Steering Committee | Rôl y pwyllgor yw goruchwylio'r treial yn gyffredinol. Dylai gynnwys aelodau sy'n annibynnol ar yr ymchwilwyr, eu sefydliadau cyflogi, eu cyllidwyr a'u noddwyr. Dylai'r TSC fonitro cynnydd y treial a darparu cyngor ar hygrededd gwyddonol. Mae'n cael ei alw'n 'Study Steering Committee' hefyd. |

Efallai y byddwch yn clywed sôn am drwydded neu 'license' hefyd. Mae treialon clinigol yn darparu'r dystiolaeth a ddefnyddir gan reoleiddwyr y llywodraeth ynghylch meddyginiaethau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes. Os oes tystiolaeth ddigonol o effeithiolrwydd a diogelwch y feddyginiaeth, bydd y rheoleiddiwr yn rhoi trwydded sy'n disgrifio sut gellir defnyddio meddyginiaeth yn ymarferol.